# Carer Factsheet

## Getting Help in Hospital

### Hospital Appointments

If you have more than one hospital appointment, try arranging them for the same day. Contact details will be on the appointment card or letter.

You or the person you care for may qualify for transport to an outpatient appointment.
See **Carer Factsheet 10 – Transport**, for more information.

### Caring for someone in hospital

If the person you care for is in hospital, you can be involved in their care or let the hospital staff take charge. It is important that you discuss your wishes with the staff. If you do want to help, ward staff can let you know what you are able to do. Please be aware that you can change your mind at any time. Staff will ask you to complete a Carers agreement to ensure there is no miscommunication.

Occasionally you may not be able to be involved in supporting the person you care for whilst they are in hospital, due to unplanned issues on the ward, which include sickness bugs or a flu outbreak although staff will explain this to you if it happens.

### Hospital Discharge

Discharge planning starts as soon as the person you care for is admitted to hospital. Let hospital staff know as soon as possible that you are their carer, or may be taking on the caring role when they leave hospital.

An action plan outlining what, who and how care is to be provided, called a discharge plan, will be drawn up. It ensures everything is in place by the time the person you care for is ready to leave. The ward staff should involve you in decisions about discharge.

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG
CARDIFF
CAERDYDD
GIG CYMRU
NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

The discharge plan may include:

- The expected date of discharge and what will happen when leaving
- Any assessments required
- Arrangements for transport home
- Any care package, equipment or changes to the home agreed
- Contact with health professionals or outpatient appointments

If you have concerns about the support agreed or do not quite understand or remember what you have been told, talk to the person organising the discharge. Staff should ask you what care you are willing or able to provide. If you have not been asked, or if you do not think your needs are being taken into consideration, tell the ward staff and if necessary, ask them to contact the hospital social work department.

If the person you care for requires discharge directly to a care home, under Cardiff and Vale UHB's 'Choice Protocol', you are entitled to be fully involved throughout the process.

Age Connects run a free hospital discharge service for people over 60 years old. This is in addition to, and does not affect, any other support you are offered. You can contact them on 029 2068 3693.

## Information, Support and Advice

Barry Hospital, University Hospital Llandough and University Hospital of Wales (Heath) have Information and Support Centres that provide a range of advice and information and support.

- Barry Hospital 01446 704141
- University Hospital Llandough 029 2071 6311
- University Hospital of Wales 029 2074 5655

The Patient Experience Support Advisor is available to provide one to one support and signposting for carers. Tel 029 2074 5307.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

This factsheet is produced by Cardiff Council, Vale of Glamorgan Council and Cardiff and Vale University Health Board. Every effort has been made to make sure the information is correct and up to date.

V1 May 2018

# Taflen Ffeithiau Gofalwr

## Cael Cymorth yn yr Ysbyty

### Apwyntiadau Ysbyty

Os oes gennych fwy nag un apwyntiad ysbyty, ceisiwch eu trefnu i gyd ar yr un diwrnod.  Bydd y manylion cyswllt ar y cerdyn neu'r llythyr apwyntiad.

Mae'n bosib y bydd hawl gennych chi, neu'r person yn eich gofal gael cludiant i'r apwyntiad cleifion allanol.
Gweler Taflen Ffeithiau 10 – Cludiant, am ragor o wybodaeth.

### Gofalu am rywun yn yr ysbyty

Os yw'r person yr ydych yn gofalu amdano yn yr ysbyty, gallwch fod â rhan yn eu gofal, neu adael i'r ysbyty gymryd yr awenau.  Mae'n bwysig eich bod yn trafod eich dymuniadau gyda'r staff. Os ydych am helpu, gall staff y ward roi gwybod i chi yr hyn y gallwch ei wneud. Nodwch y gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg. Bydd y staff yn gofyn i chi gwblhau Cytundeb Gofalwyr, i sicrhau nad oes unrhyw gamddeall.

O dro i dro, mae'n bosib na fyddwch yn gallu cefnogi'r person yn eich gofal yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty, oherwydd trafferthion ar y ward fel ffliw neu haint, ond bydd y staff yn esbonio hyn i chi.

### Gadael yr Ysbyty

Mae cynllunio ar sut i adael yr ysbyty, yn digwydd yn syth ar ôl i'r person sydd yn eich gofal gyrraedd yr ysbyty yn y lle cyntaf.  Gadewch i'r staff yn yr ysbyty wybod cyn gynted â phosib mai chi yw'r gofalwr, neu y byddwch chi o bosib yn ymgymryd â'r gwaith gofalu pan fyddan nhw'n gadael yr ysbyty.

Bydd cynllun gadael yr ysbyty yn cael ei lunio, yn amlinellu pa ofal fydd yn cael ei ddarparu, sut fydd hynny'n digwydd,  a gan bwy.  Mae'n sicrhau bod popeth yn

ei le erbyn y bydd y person yn eich gofal yn gadael yr ysbyty.  Dylai staff y ward eich cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â gadael yr ysbyty.

Gallai'r cynllun i adael yr ysbyty gynnwys:

- Dyddiad disgwyliedig gadael yr ysbyty a'r hyn fydd yn digwydd ar y pryd
- Unrhyw asesiadau sydd eu hangen
- Trefniadau cludo adref
- Unrhyw becyn gofal, offer neu newidiadau i'r cartref a gytunwyd
- Cyswllt gyda gweithwyr iechyd proffesiynol neu apwyntiadau cleifion allanol

Os oes pryderon gennych ynglŷn â'r cymorth y cytunwyd arno, a anghofiwyd neu nad ydych yn deall yr hyn a ddywedwyd, siaradwch â'r person a drefnodd i'r claf adael yr ysbyty.    Dylai staff ofyn i chi pa ofal yr ydych yn barod neu'n abl i'w roi. Os na ofynnwyd i chi, neu os nad ydych yn teimlo bod eich anghenion yn cael eu hystyried, soniwch wrth staff y ward, ac os oes angen, gofynnwch iddyn nhw gysylltu ag adran gwaith cymdeithasol yr ysbyty.

Os oes rhaid i'r person yr ydych yn gofalu amdano fynd yn syth i gartref gofal, o dan 'Brotocol Dewis' Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae hawl gennych i gael eich cynnwys yn llawn drwy gydol y broses.

Mae Age Connects yn cynnig gwasanaeth gadael yr ysbyty am ddim i bobl dros 60 mlwydd oed.  Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw gymorth arall sy'n cael ei gynnig i chi, ac nid yw'n effeithio arno.  Gallwch gysylltu â nhw ar 029 2068 3693.

## Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor

Mae Canolfannau Gwybodaeth a Chymorth yn Ysbyty'r Barri, Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty Athrofaol Cymru (Y Waun), sy'n cynnig amrywiaeth o gyngor, gwybodaeth a chefnogaeth.

- Ysbyty'r Barri 01446 704141
- Ysbyty Athrofaol Llandochau 029 2071 6311
- Ysbyty Athrofaol Cymru 029 2074 5655

Mae'r Cynghorydd Cymorth ar Brofiad Cleifion hefyd ar gael i roi cyngor un am un i ofalwyr. Ffôn 029 2074 5307.

Cynhyrchir y ffeithlen hon gan Gyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

V1 Mai 2018